WG35.3.115

# GALAR-GAN

AR FARWOLAETH

## Y PARCH. JOHN LEWIS,

FICER LLANRHYSTID,

Yr hwn a hunodd yn yr Arglwydd yr 21ain o Ragfyr, 1862,

YN 61 MLWYDD OED.

---

GAN ELIZA RICHARDS,

*Noyadd, Llanrhystid.*

---

O! 'r fath alar trwm a welir, drwy'r gym'dogaeth yn mhob man,
Am farwolaeth Mr. Lewis, alaeth newydd ddaeth i'm rhan:
O! 'r fath golled fawr a gafwyd yma yn Llanrhystid 'nawr,
Am y ffyddlon gymwynaswr ga'dd mor syn ei dori i lawr.

Mawr yw'r tristwch sydd i'w ganfod, mae pob gradd yn teimlo'n chwith,
Am ymado eu hanwyl gyfaill mor ddisymwth maes o'u plith:
Myn'd oddiamgylch byddai beunydd i ymwel'd â'r tlawd a'r gwan,
Er eu porthi a'u dilladu, a chyhoeddi Crist yn rhan.

'R oedd yr Eglwys, bore'r Sabbath, yn brysur ddysgwyl gwel'd ei wedd,
Fel arferol yn y pwlpud, yn pregethu Crist a'i hedd;
Ond angeu chwerw ddaeth yn sydyn, ac a'i t'rawodd dan ei fron,
A chwympo wnaeth y Cristion cadarn yn yr ymdrech galed hon.

X205311228

Mae yr Eglwys 'nawr mewn galar, a'r gwrandawyr oll yn brudd,
Gwedi colli eu Gweinidog, ffyddlon, diwyd, yn ei ddydd:
Bu yn ngwaith y weinidogaeth yn llafurus flwyddau maith,
Gwylio ac adeiladu'r Eglwys ydoedd ei hyfrytaf waith.

Tegwch bro, llawenydd daear, oedd Llanrhystid yn ei ddydd,
A'i ddymuniad oedd fod iddi bara'n ffyddlon yn y ffydd:
Cyrchu ato byddai'r brodyr bron o bedwar cwr y byd,
Ac ni gawsom Gyrddau Misol brâf a chyson iawn o hyd.

Lewis yntau oedd â'i ysbryd yn dra bywiog ar y pryd,
Gwenai wrth edrych ar y dyrfa ydoedd wedi d'od yn nghyd:
'R oedd yn teimlo, megys Eli, dros arch bur cyfammod Duw;
Megys Moses, bu'n arweinydd yn yr Eglwys tra fu byw.

'R oedd yn enwog, ddewrwych wron, yn cario'r gwaith yn mlaen drwy'r wlad,
Ac fel Iesu Grist ei hunan, yn dwyn mawr sêl dros dŷ ei Dad;
'R oedd ei hyfryd lais soniarus, a'i ddyddanus eiriau mwyn,
Yn rhyw berarogli'n hyfryd yn yr hoff efengyl fwyn.

Byddai weithiau yn taranu uwchben annuwiolion byd,
A'u cynghori i ffoi i'r noddfa gyda brys, cyn deuai'r llid:
Ond yn awr mae wedi tewi, ac wedi myned i gael hûn,
Cyn, fe allai, bydd yn dygwydd rhyw echryslon ddrygfyd blin.

O! 'r fath sobrwydd oedd i'w weled yn ngwynebau'r dyrfa brudd,
Pan yn gweled rhoddi'r gwron i orwedd yn ei wely pridd:
'R hwn drwy'i oes a fawr ymdrechodd, yn dêg a dewr o blaid y ffydd;
Fel rhyw glir oleuad dysglaer y llewyrchodd yn ei ddydd.

'R oedd yn ddoeth a thra dysgedig, eto gostyngedig iawn,
A rhyfeddol mor gariadus,—o diriondeb 'roedd yn llawn:
'R oedd ei enw wedi codi yn ddyrchafedig yn mhob lle,
Cai ei barchu a'i anrhydeddu gan drigolion gwlad a thre.

Y Gweinidogion mwyaf doniol, a defnyddiol yn ein gwlad,
Roddent iddo y flaenoriaeth, gan ei gyfrif megys tad :
Dyma'r gwr a wisgodd beunydd arfau'r Pen Rhyfelwr mawr,
Sef nodau gwir santeiddrwydd bywyd, tra fu yma ar y llawr.

Ac fe gariodd gleddyf miniog Gair y Bywyd ar bob pryd,
Ac â hwn y llwyr orchfygodd bob rhyw elyn yn y byd :
'R oedd i'w wel'd y Sabbath olaf y bu ar y ddaear hon,
A'i hoff gleddyf wrth ei ochr, a'i hardd darian dan ei fron.

Ond cyn d'od o'r dewr ryfelwr prin i'r maes â'i olwg hy,
Clywai lais yn uchel alw arno o'r Baradwys fry,—
" Dere adre',—dere heddyw, i gael etifeddu'r wlad
Sydd yn nghadw gan y Brenin i'r milwyr glewion yn y gâd."

Er y geirwon groesau gafodd—gwrth'nebiadau o bob rhyw,
'Rhai sy'n wastad yn cyfarfod ffyddlon, ddoniol, weision Duw,
'Nawr mae wedi myn'd i orphwys oddiwrth ei lafur caled, blin;
Mae pob chwerwder gafodd isod, heddyw iddo'n felys win.

Yr oedd ynddo bob addasrwydd at waith Duw, fel ffyddlon was,
Ac arweiniai ef y defaid at yr hyfryd borfa frâs;
Pan y byddai rhai yn crwydro, ac yn myned maes o'u lle,
Ar eu hol yr elai Lewis, gan eu dwyn yn iach i dre.

Ond fe gerddodd lwybrau'r bywyd, yn dra union er pob draen,
A gweddïodd dros ei 'lynion, fel ei Athraw mawr o'i flaen:
Mae ef heddyw yn ei gartref, gyda'r teulu yn y nef,
Yn cyd-gordio yn yr Anthem, ac yn canu, Iddo Ef!

Moli mae yr hwn a'i golchodd yn ei werthfawr waed ei hun,
Ac a'i dygodd yn ddiogel, adref o'i gaethiwed blin;
Nid oes yno eisieu'r arfau, lle mae yn preswylio 'nawr,
Ond caiff rodio gyda'r Brenin, mewn rhyw wir dawelwch mawr.

Yn lle cledd mae ganddo balmwydd, a hardd goron yn lle'r groes,
Gyda thelyn aur i ganu,—Ffarwel byth bob chwerw loes:

'R oedd ei deulu yn ei garu, yma'n anwyl iawn i gyd,
Yr oedd rhywbeth yn rhagori ynddynt ar deuluoedd byd.

Yr oedd yntau fel rhyw ddarlun, hoff a bywiog yn eu mysg,
Yn cyfranu'n wastad iddynt bur nefolaidd, ddwyfol ddysg:
Ar ei ol maent yn galaru, a'u dwys dristwch sydd yn fawr,
Ffrydia dagrau dros eu gruddiau, clwyfus yw eu calon 'nawr.

Hoff gan natur yw galaru, mawr yw teimlad ceraint cu,
Pan hebryngir ffrynd i'r beddrod, wylo pwy i'w feio sy!
Gellir wylo, ond gwell cofio, mai gwyn fyd y meirw 'n Nghrist,
Fel y dywed yr efengyl,—ar eu hol na fyddwn drist.

Mi debygaf clywaf heddyw ryw swn wylo yn mhlith y coed,
Sydd yn tyfu wrth y llwybrau yr arferai sengu'i droed;
Tybiaf hefyd fod rhyw adsain trwm, galarus, gan y gwynt,
Sy'n ehedeg rhwng hen furiau hoff Llanrhystid ar ei hynt.

Mae'r wythnosau yn myn'd heibio, a'r Sabbathau yn ddioed,
Heb un gobaith gwel'd ei wyneb, na chael clywed swn ei droed;
Y mae cofio ei rasol eiriau, a'i gynghorion gwerthfawr, da,
Am na chlywir mo'nynt mwyach, yn peri i'm calon ddirfawr blâ.

O! ni gawsom gysur ganddo, mewn gorthrymder lawer gwaith;
Ond ni welir mo'no mwyach, dyna archoll bery'n faith:
Y mae Seion wedi eistedd, i alaru ar ei thaith,
Ar ol colli ei harweinydd, yn y dyrys anial maith.

Ond y mae addewid ganddi, y bydd i Dduw ddyfrhau ei gwraidd,
Ac yr enfyn fugail eto, i ofalu am ei braidd:—
Ceisiwn bawb gael grym duwioldeb, grym i gadw galar ffwrdd,
Grym a roddo sicrwydd hyfryd, y bydd i'r duwiol oll gyd-gwrdd.

DIWEDD.

PHILIP WILLIAMS, ARGRAFFYDD, ABERYSTWYTH.